



Y Cynllun Sgorio Hyllendid Bwyd

Adroddiad i Senedd Cymru

Adolygu'r broses o weithredu'r Cynllun Sgorio
Hyllendid Bwyd Statudol a Gweithrediad y System
Apelio yng Nghymru



Chwefror 2021

Tabl cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol.....	3
2. Cyflwyniad	5
3. Effeithiau COVID-19 ar y Cynllun.....	7
4. Adolygiad o gyflawni Swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r ASB	10
Adolygiad o'r Canllawiau Statudol.....	10
Gweithredu'r Cynllun.....	10
Hawl i Ymateb.....	11
Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (Y Cod)	12
Adolygu'r Broses o Weithredu'r Cynllun a Gweithrediad y System Apelio	12
Hyrwyddo'r Cynllun	13
5. Adolygiad o Ddyletswyddau Awdurdodau Lleol	14
Cysondeb.....	15
6. Adolygu Gweithrediad y System Apelio	17
Apelio.....	17
Cais i Gyhoeddi Sgôr yn Gynnar	18
Hawl i Ymateb.....	18
Ceisiadau am Arolygiadau Ailsgorio	19
7. Gorfodi	21
8. Effaith y Cynllun.....	23
Cydymffurfiaeth ac Agweddau Busnesau Bwyd	23
Ymwybyddiaeth Defnyddwyr.....	26
9. Datblygiadau yn y Dyfodol	27
Cynllun Statudol yn Lloegr	27
Arddangos Sgoriau Ar-lein.....	27
Adolygiad o'r Eithriad ar gyfer Gwarchodwyr Plant.....	27
Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau.....	28
Defnyddio asesiadau o bell ar gyfer y Cynllun	28
Cofrestru Busnesau Bwyd	29
10. Casgliadau	30
11. Argymhellion	31
Argymhelliad 1:.....	31
Argymhelliad 2:.....	31
Argymhelliad 3:.....	31

Argymhelliad 4:.....	31
Argymhelliad 5:.....	31
Argymhelliad 6:.....	31
Argymhelliad 7:.....	31
Atodiad 1..... Camau Gweithredu mewn Ymateb i Argymhellion o Adroddiadau Cynharach.....	32
2018 – Adolygu’r broses o weithredu’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru.....	32
2019 – Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd: Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru	35
2020 – Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd: Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru	36

1. Crynodeb Gweithredol

Mae arddangos sgoriau hylendid bwyd gorfodol wedi bod yn llwyddiant yng Nghymru ac wedi arwain at gydymffurfiaeth diogelwch bwyd gwell a pharhaus gan fusnesau bwyd a darparu mwy o dryloywder i ddefnyddwyr yng Nghymru.

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi i fodloni'r gofyniad i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) gynnal adolygiad tair blynedd o weithrediad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (y Cynllun) yng Nghymru o 28 Tachwedd 2017 i 27 Tachwedd 2020, ac adolygiad blynyddol pellach o weithrediad y system apelio hyd at 27 Tachwedd 2020.
- 1.2. Mae'r adroddiad yn cyflwyno trosolwg o weithgarwch Gweinidogion Cymru a'r ASB a sut mae awdurdodau lleol wedi cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae hefyd yn nodi'r gwaith ymgysylltu â defnyddwyr a busnesau bwyd.
- 1.3. Mae pandemig COVID-19 wedi golygu bod swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cael eu galw i gynorthwyo gyda'r ymateb. Yn unol â chyngor yr ASB, a oedd yn ystyried y pwysau a oedd awdurdodau lleol, roeddent yn gallu gwyrto dros dro oddi wrth amlderau ymyrryd rhagnodedig sydd wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (y Cod) ar gyfer rhai rheolaethau swyddogol. Er bod gweithrediad y Cynllun yn unol â Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (y Ddeddf) wedi parhau yn sylfaenol yn ystod 2020, mae'r adroddiad yn cadarnhau bod gohirio ymyriadau wedi arwain at gynnydd yn nifer y busnesau sy'n aros am sgôr neu fusnesau sy'n arddangos sgoriau lle mae'r arolygiadau yn hwyr. Mae hefyd wedi cyfyngu ar y gallu i gasglu data, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Tachwedd 2020, a fyddai wedi'i ddefnyddio i lywio canfyddiadau'r adroddiad hwn.
- 1.4. Mae'r adroddiad yn cadarnhau rôl barhaus yr ASB wrth hwyluso ymarferion cysondeb a hyfforddiant i gefnogi'r Cynllun a bod cymryd rhan mewn ymarferion cysondeb, cyn pandemig COVID-19, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i bob awdurdod lleol yng Nghymru.
- 1.5. Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar weithrediad y system apelio rhwng 28 Tachwedd 2019 a 27 Tachwedd 2020. Gan gydnabod yr amgylchiadau heriol yr oedd awdurdod lleol yn eu hwynebu, ni ofynnodd yr ASB iddynt gyflwyno data ym mis Mai a mis Tachwedd 2020 ac mae wedi defnyddio'r wybodaeth sydd ganddi i lywio'r adolygiad. Canfu'r adolygiad fod 32 o apeladau wedi'u cofnodi gan awdurdodau lleol, a bod pob un o'r rhain wedi'u pennu o fewn 21 diwrnod, yn unol â'r Ddeddf, Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Bwyd (y Canllawiau Statudol).

- 1.6. Mae'r Cynllun yng Nghymru yn parhau i gael effaith gadarnhaol gyda chyfran y busnesau bwyd a oedd yn cydymffurfio i raddau helaeth yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn yn parhau i godi o 95 y cant i 97 y cant gyda nifer y busnesau bwyd a gafodd y sgôr uchaf yn cynyddu mwy na phedwar pwynt canran i bron i 70 y cant. Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn 2019 hefyd wedi sefydlu cynnydd parhaus yn ymwybyddiaeth defnyddwyr yng Nghymru gyda 94 y cant, o'i gymharu ag 89 y cant yn 2017, yn adnabod delweddau o'r sgoriau (gweler Pennod 8 – Ymwybyddiaeth Defnyddwyr).
- 1.7. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu datblygiadau rheoleiddiol allweddol yn y dyfodol ac yn cydnabod yr angen i ystyried effaith y rhain ar roi'r Cynllun ar waith yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Cynllun Statudol yn Lloegr
 - Arddangos Sgoriau Ar-lein
 - Adolygiad o Eithriad Gwarchodwyr Plant
 - Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau
 - Defnyddio Asesiad o Bell
 - Cofrestru Busnesau Bwyd
- 1.8. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud saith argymhelliad ar weithredu'r Cynllun yng Nghymru yn barhaus, yn ogystal â rhoi diweddariad ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiadau blaenorol.

2. Cyflwyniad

- 2.1. Sefydlodd y [Ddeddf](#)¹ Gynllun statudol yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn helpu defnyddwyr i ddewis ble i fwyta allan neu siopa am fwyd trwy roi gwybodaeth glir am safonau hylendid busnesau bwyd ac, yng Nghymru, mae'n cael ei gynnal mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru.
- 2.2. Mae'r Cynllun yn rhoi sgôr i fusnesau, a bennir gan awdurdodau lleol yn dilyn arolygiadau, o '0' (angen gwella ar frys) i '5' (da iawn). Rhaid arddangos y sgôr, gan ddefnyddio sticer penodol, wrth fynedfeydd cwsmeriaid neu mewn man amlwg (Ffigur 1). Mae'r sgoriau hefyd ar gael ar [wefan](#)² yr ASB. Mae'n ofynnol hefyd i fusnesau sy'n cyflenwi bwyd tecawê yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gyhoeddi datganiad dwyieithog ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd sy'n cyfeirio defnyddwyr at wybodaeth am sgoriau hylendid bwyd.

Ffigur 1. Sgoriau Hylendid Bwyd



- 2.3. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar yr ASB i adolygu'r broses o weithredu'r Cynllun, a hynny ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y Cynllun, a phob tair blynedd wedi hynny. Rhaid gosod adroddiad yr adolygiad gerbron Senedd Cymru ddim hwyrach na thri mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r adolygiad yn ymwneud ag ef ac anfon copi at Weinidogion Cymru.

¹ Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013:
<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/2/resources/enacted/welsh>

² www.food.gov.uk/sgoriau

2.4. Paratowyd yr adroddiad hwn i fodloni'r gofyniad ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2017 a 27 Tachwedd 2020. Mae'n dilyn dau adroddiad cynharach:

- [Adolygu'r Broses o Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio – Chwefror 2018](#)³
- [Adolygu'r Broses o Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio – Chwefror 2018](#)⁴.

³ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10113%20-a%20report%20for%20the%20national%20assembly%20for%20wales%20review%20of%20the%20i mplementation%20and%20operation%20of%20the%20statutory%20food/gen-ld10113-w.pdf>

⁴ <https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11433/gen-ld11433-w.pdf>


3. Effeithiau COVID-19 ar y Cynllun

- 3.1. Mae'r ASB yn cydnabod yr amgylchiadau heriol y mae COVID-19 wedi'u creu a'r rôl hanfodol y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei chwarae o fewn yr ymateb iechyd y cyhoedd ehangach sy'n ofynnol er mwyn rheoli'r pandemig. Trwy gydol 2020, mae awdurdodau lleol wedi dangos eu hystwythder, eu hyblygrwydd a'u hymrwymiad diffuant i gadw bwyd yn ddiogel. I lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, daeth y pandemig i ddilyn y storm waethaf i ni ei gweld ers 100 mlynedd a llifogydd dilynol yn y gaeaf, gan adael prin dim amser iddynt adfer.
- 3.2. Mae'r bennod hon yn amlinellu cyngor yr ASB i awdurdodau lleol yng Nghymru mewn ymateb i bandemig COVID-19 a'r effaith ar weithredu'r Cynllun. Anfonwyd y cyngor hwnnw i bob awdurdod lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac roedd yn nodi disgwyliadau'r ASB bod awdurdodau yn asesu risg eu dull o ddarparu rheolaethau swyddogol a fyddai'n eu galluogi i ystyried gwahaniaethau ac adnoddau lleol.
- 3.3. Pan roddwyd cyfyngiadau ar waith ym mis Mawrth 2020 i leihau lledaeniad COVID-19, rhannodd yr ASB gyngor ag awdurdodau lleol ar flaenoriaethu rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid. I ddechrau, cynghorodd yr ASB y dylid gohirio rheolaethau bwyd swyddogol wedi'u rhaglennu ac unrhyw arolygiadau ailsgorio y gwnaed cais amdanynt. Roedd hyn er mwyn cyfyngu cymaint â phosibl ar nifer yr ymwelwyr mewn busnesau bwyd, ac er mwyn i awdurdodau lleol allu dargyfeirio adnoddau i waith adweithiol brys i fynd i'r afael â risgiau iechyd y cyhoedd cysylltiedig â bwyd a allai fod yn ddifrifol, ac i gamau iechyd y cyhoedd ehangach eraill a oedd yn ofynnol yn lleol yn ystod yr ymateb i bandemig COVID-19. Y cyngor oedd y dylid cynnal ymyriadau cychwynnol o fewn busnesau bwyd o bell, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, i lywio'r angen am ymweliad ar y safle a beth i ganolbwyntio arno yn yr ymweliad hwnnw.
- 3.4. Cydnabuwyd y byddai gohirio ymyriadau a gynlluniwyd yn cael effaith ar weithrediad arferol y Cynllun. Cynghorwyd awdurdodau lleol i barhau i weithredu agweddau ar y Cynllun lle bo hynny'n bosibl a lle bo adnoddau yn caniatáu, ac i roi rhai newidiadau gweithredu ar waith. Roedd y cyngor a roddwyd i awdurdodau lleol yn cynnwys:
 - pan fydd busnes newydd yn cofrestru, dylid eu cofnodi drwy [food.gov.uk/sgoriau](https://www.food.gov.uk/sgoriau) fel un a oedd yn 'aros am arolygiad' nes iddynt gael eu harolygu
 - gohirio ceisiadau am arolygiad at ddibenion ailsgorio, ond pe bai'r dystiolaeth ddogfennol ategol yn dangos bod y gwelliannau angenrheidiol wedi'u rhoi ar waith, a bod gan y busnes sgôr o 0, 1 neu 2, dylid diweddarau'r cofnod ar-lein i ddangos 'aros am arolygiad'

- parhau i gyhoeddi sgoriau presennol drwy food.gov.uk/sgoriau ar gyfer pob busnes gan gynnwys y rhai a oedd ar gau dros dro yn ystod y cyfyngiadau

3.5. Nid oedd newid yn y gofyniad bod yn rhaid cyhoeddi sgoriau risg hylendid bwyd yn dilyn ymweliadau ar y safle ac ymyriadau sy'n arolygiadau, yn arolygiadau rhannol neu'n archwiliadau, ac mae'n parhau i fod felly.

3.6. Mae gohirio ymyriadau wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y sgoriau a gyhoeddwyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2020 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019. Gellir gweld hefyd bod pandemig COVID-19 wedi dechrau cael effaith ym mis Chwefror a mis Mawrth 2020.



3.7. Mae nifer y busnesau a gyhoeddir ar y wefan sgoriau fel rhai sy'n 'aros am arolygiad' wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn o 731 o fusnesau ym mis Mawrth 2020 i 2249 ym mis Tachwedd 2020. Mae'r cynnydd hwn yn cyd-fynd â'r cyngor a gyhoeddwyd gan yr ASB fel yr amlinellir ym mharagraff 3.4 uchod.

- 3.8. O ystyried y dirwedd fusnes newidiol a llacio rhai cyfyngiadau, diweddarodd yr ASB y cyngor i awdurdodau lleol ddiwedd mis Mehefin 2020. Roedd y cyngor hwn, gan ystyried cyfyngiadau COVID-19 ac asesiadau risg lleol, yn canolbwyntio ar ailddechrau arolygiadau ffisegol ar gyfer busnesau a oedd yn wael am gydymffurfio a rhai risg uchel, gan gynnwys y rhai a oedd wedi newid gweithgareddau yn ystod pandemig COVID-19 neu a oedd wedi ailagor ar ôl bod ar gau am gyfnod hir. Y cyngor oedd y dylid defnyddio asesiad cychwynnol o bell yn yr achosion hynny, lle bo hynny'n briodol, i dargedu meysydd i ganolbwyntio arnynt yn ystod yr ymweliad dilynol ar y safle. Nod hyn oedd hwyluso defnydd effeithiol o'r adnoddau a oedd ar gael a lleihau'r amser yr oedd angen bod ar y safle. Roedd hefyd yn hwyluso gweithrediad mwy arferol y Cynllun. Roedd y cyngor hwnnw'n cwmpasu'r cyfnod hyd at fis Medi 2020. Ym mis Medi 2020, aeth yr ASB ati i adolygu ac adnewyddu'r cyngor ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2021⁵.

Argymhelliad 1: Mae'r ASB, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru (DPPW) a Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (SSAFW) yn cydweithredu i ddatblygu blaengynllun ar gyfer arolygiadau a sgoriau hylendid bwyd yn y dyfodol.

⁵ Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r ASB wedi ymestyn y cyngor hwn ymhellach i 30 Mehefin 2021

4. Adolygiad o gyflawni Swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r ASB

- 4.1. Mae'r adran hon yn adrodd ar adolygiad o gyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r ASB, fel y mae'n ymwneud â'u pwerau a'u swyddogaethau a nodir yn y Ddeddf, yn ystod y cyfnod tair blynedd y mae'r adroddiad hwn yn ei gwmpasu.

Adolygiad o'r Canllawiau Statudol

- 4.2. O dan adran 23 o'r Ddeddf "caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau a) i'r ASB a, b) i'r awdurdod bwyd, mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon". Yn ystod 2020, aeth yr ASB ati i adolygu a diweddarau'r canllawiau statudol ar weithrediad y Cynllun. Dilynwyd hyn gan gyfnod estynedig o ymgynghori â Grŵp Llywio Cymru⁶ i adlewyrchu'r pwysau yr oedd awdurdodau lleol oddi tano. Mae newidiadau yn cynnwys darparu eglurhad ar, er enghraifft, amlygrwydd y sgôr pan fydd busnes ar agor, darparu sgôr ar gyfer masnachwyr symudol ac agweddau ar y mesurau diogelu ar gyfer busnesau, ymhlith eraill. Cafodd newidiadau fformatio eu cynnwys i gydymffurfio â gofynion hygyrchedd hefyd a oedd yn effeithio ar dablau a siartiau llif a gynhwysir yn y canllawiau. Bydd cais i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ddechrau 2021.

Gweithredu'r Cynllun


- 4.3. Mae'r ASB yn parhau i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Cefnogwyd awdurdodau lleol i weithredu'r Cynllun yn effeithiol, trwy gyhoeddi sgoriau hylendid bwyd ar ei gwefan cyn pen saith diwrnod ar ôl cael ei hysbysu gan awdurdodau lleol a thrwy ddarparu sticeri sgoriau hylendid bwyd am ddim fel sy'n ofynnol gan Adran 14(1)(h) o'r Ddeddf.

⁶ Sefydlwyd Grŵp Llywio Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr ar ran yr ASB, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, i gydlynu proses effeithiol o weithredu'r Cynllun.

4.4. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, roedd tua 417,500 o ymweliadau â gwefan y Cynllun (food.gov.uk/sgoriau) o leoliadau yng Nghymru gyda chyfanswm o dros 2.5 miliwn o ymweliadau tudalen (*page views*) ar y wefan. Profwyd mai penwythnosau oedd yr amser mwyaf poblogaidd i ddefnyddwyr ymweld â'r wefan, gyda dros 72 y cant o'r rheiny a oedd yn defnyddio'r wefan yn gwneud hynny o ffôn symudol. Yng Nghymru, roedd defnyddwyr yn cael eu cyfeirio amlaf i'r wefan gan Google (dros 250,000), gydag ymweliadau uniongyrchol yn dod i gyfanswm o bron i 155,000. Daeth tua 15,000 o ymweliadau trwy lwyfannau archebu bwyd a daeth nifer llai o ymweliadau trwy wefannau awdurdodau lleol eu hunain (tua 5,000).

Hawl i Ymateb

- 4.5. Mae'r 'hawl i ymateb' yn galluogi gweithredwyr busnesau bwyd i esbonio'r camau sydd wedi'u cymryd yn dilyn yr arolygiad lle cafodd y sgôr ei dyfarnu neu i ddarparu gwybodaeth am unrhyw amgylchiadau perthnasol adeg yr arolygiad.
- 4.6. O dan Adran 11(3) o'r Ddeddf, "rhaid i awdurdod bwyd anfon unrhyw sylwadaethau o'r fath ymlaen at yr ASB a gaiff gyhoeddi'r sylwadaethau ar ei gwefan ynghyd â'r sgôr hylendid bwyd y mae'r sylwadaethau yn ymwneud â hi".
- 4.7. Cyhoeddwyd 26 o sylwadau hawl i ymateb rhwng 28 Tachwedd 2017 a 27 Tachwedd 2018, 19 rhwng 28 Tachwedd 2018 a 27 Tachwedd 2019 a 3 rhwng 28 Tachwedd 2019 a 27 Tachwedd 2020 (Ffigur 3). Mae hyn yn gyfanswm o 58 Hawl i Ymateb o'i gymharu â'r 26 a nodwyd ar gyfer y cyfnod tair blynedd blaenorol (2014-2017).



Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (Y Cod)

- 4.8. Mae'r Cod yn cynnwys cyfarwyddiadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth orfodi cyfraith bwyd. Mae'r Cod yn nodi meini prawf sgorio risg ar gyfer pennu amlderau ymyrryd ar gyfer rheolaethau bwyd swyddogol.
- 4.9. Adolygwyd y Cod a chyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddarau ym mis Awst 2018. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys diweddarau cyngor ac eglurhad ychwanegol o'r disgrifwyr risg.
- 4.10. Mae'r ASB wrthi'n adolygu'r Cod a'r canllawiau cysylltiedig, er mwyn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru. Cyhoeddwyd yr [ymgyngoriad](#)⁷ ym mis Rhagfyr 2020.

Adolygu'r Broses o Weithredu'r Cynllun a Gweithrediad y System Apelio

- 4.11. Daeth yr ail Adolygiad o'r Broses o Weithredu'r Cynllun, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018, i'r casgliad bod y Cynllun yn parhau i fod yn effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth o safonau hylendid bwyd, sicrhau buddion gwirioneddol i ddefnyddwyr ac o ran cymell busnesau bwyd i wella cydymffurfiaeth â chyfraith diogelwch bwyd i leihau'r risgiau i ddefnyddwyr o salwch a gludir gan fwyd.
- 4.12. Nododd yr adolygiad hwn 14 o argymhellion ar weithrediad parhaus y Cynllun yng Nghymru.
- 4.13. Mae'r ASB wedi cynnal adolygiadau blynyddol o Weithrediad y System Apelio yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019 a mis Chwefror 2020. Mae'r adroddiadau'n cadarnhau bod awdurdodau lleol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn gweithredu'r darpariaethau apelio yn unol â'u rhwymedigaethau statudol ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan yr ASB. Mae cyfradd yr apeliadau yn erbyn sgoriau yn parhau i fod yn isel, ar gyfartaledd o 0.3 y cant rhwng y ddwy flynedd. Ar gyfartaledd, fe wnaeth 18.5 y cant o'r apeliadau a wnaed i awdurdodau lleol arwain at newidiadau mewn sgoriau hylendid bwyd. Gwnaed saith argymhelliad yn yr adolygiadau hyn.
- 4.14. Cwblhawyd yr holl adroddiadau o fewn yr amserlenni a amlinellir yn y Ddeddf, a chawsant eu gosod gerbron Senedd Cymru a darparwyd copïau i Weinidogion Cymru.
- 4.15. Mae'r holl argymhellion a wnaed yn yr adolygiadau wedi'u nodi [Atodiad 1](#), ynghyd â'r camau sydd wedi'u cymryd i fynd i'r afael â nhw.


⁷ <https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/adolygur-cod-ymarfer-cyfraith-bwyd-canllawiau-ymarfer-cyfraith-bwyd-a-gweithredur-fframwaith-cymwyseddau-cymru>

Hyrwyddo'r Cynllun

- 4.16. Mae'r ASB yn parhau i fod yn rhagweithiol ac yn mynd ati'n rheolaidd i hyrwyddo'r Cynllun i ddefnyddwyr yng Nghymru trwy'r cyfryngau cymdeithasu a thrwy weithgarwch arall. Mae presenoldeb yr ASB mewn digwyddiadau cenedlaethol fel yr Eisteddfod a Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (ac eithrio 2020) yn parhau i ganolbwyntio ar y Cynllun, gan egluro i ddefnyddwyr sut mae'r Cynllun yn gweithredu a sut maen nhw'n elwa ohono. Mae digwyddiadau diwylliannol, chwaraeon ac achlysuron fel y Nadolig, Diwrnod Santes Dwynwen, Dydd San Ffolant a Dydd Mawrth Ynyd hefyd wedi'u defnyddio fel ffocws ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo, yn arbennig ar y cyfryngau cymdeithasu.
- 4.17. Cafodd negeseuon eu targedu ar y cyfryngau cymdeithasu, gyda defnyddwyr yn cael eu hannog i edrych ar sgoriau busnesau bwyd cyn ymweld â nhw neu i roi gwybod i'w hawdurdod lleol os nad oes sgôr i'w gweld; a chynghori gweithredwyr busnesau bwyd i wyllo fideos hyfforddi a allai eu helpu i wella eu sgoriau. Postiodd yr ASB dros 100 darn o gynnwys ar y Cynllun ar draws ei chyfryngau cymdeithasu, sef Facebook, Twitter ac Instagram.
- 4.18. Mae cyfryngau print cenedlaethol a rhanbarthol a chyfryngau ar-lein cyfatebol yn parhau i gyhoeddi straeon ac erthyglau ar y Cynllun. Mae hyn yn amrywio o adolygiad cyflawn o fusnesau bwyd mewn ardal i dynnu sylw at y busnesau hynny sydd â sgôr o '3' neu is ac adrodd ar erlyniadau am fethu ag arddangos sticer y Cynllun yn unol â'r gofyniad cyfreithiol. Mae'r ASB yn ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau fel y bo'n briodol, gan weithio gyda'r awdurdodau lleol yn ôl yr angen.
- 4.19. Dathlodd y Cynllun gwreiddiol ddeng mlynedd o fodolaeth ddiwedd mis Tachwedd 2020, gyda'r cynllun gorfodol yng Nghymru yn dod i rym yn 2013. Mae'r ASB wedi gweithio gyda chyhoeddiadau fel Environmental Health News, Food Manufacture ac eraill i roi sylw i'r Cynllun ac i gydnabod y rôl y mae timau diogelwch bwyd awdurdodau lleol Cymru wedi'i chwarae wrth sicrhau llwyddiant y Cynllun.

5. Adolygiad o Ddyletswyddau Awdurdodau Lleol

- 5.1. Mae'r Cynllun yn dibynnu ar awdurdodau lleol yn cynnal arolygiadau hylendid bwyd gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg i asesu cydymffurfiaeth busnesau â'r ddeddfwriaeth a rhoi sgoriau.
- 5.2. Wrth arfer ei swyddogaeth o fonitro perfformiad awdurdodau lleol, mae'r ASB yn casglu data blynyddol ar weithgarwch gorfodi mewn busnesau bwyd, gan ddefnyddio System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS). Mae'r data hwn yn cynnwys manylion nifer yr arolygiadau hylendid bwyd a raglennir a mathau eraill o ymyriadau a gynhaliwyd mewn busnesau bwyd. Dylid nodi bod data LAEMS yn cael ei gasglu am y flwyddyn rhwng mis Ebrill a mis Mawrth, o'i gymharu â'r cyfnod adrodd rhwng 28 Tachwedd a 27 Tachwedd ar gyfer y Cynllun.
- 5.3. Mae dadansoddiad o ddata LAEMS ar gyfer mis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2020 yn cadarnhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi adrodd eu bod wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'r ymyriadau hylendid bwyd a oedd wedi'u rhaglennu. Mewn achosion lle nad oedd hyn wedi digwydd, mae'r data'n dangos bod dull seiliedig ar risg wedi'i fabwysiadu i gynnal ymyriadau yn unol â'r Cod.



- 5.4. Mae Ffigur 4 uchod yn amlinellu'r data LAEMS yn ôl categori risg dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn dangos gostyngiad dros y tair blynedd rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2020 wrth gynnal ymyriadau hylendid bwyd ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym ni wedi gweld gwelliant bach, o'r cyfartaledd tair blynedd o 89 y cant a nodwyd ar gyfer 2014-2017 i gyfartaledd tair blynedd o 90 y cant rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2020.
- 5.5. Mae cyfanswm o wyth awdurdod lleol, dros y tair blynedd, wedi nodi arolygiadau nad oeddent wedi'u cynnal yn eu gwybodaeth LAEMS flynyddol yr oedd angen i'r ASB eu hystyried. Tri yn 2017/18, pedwar yn 2018/19 a chwech yn 2019/20. Mae rhai awdurdodau lleol wedi nodi arolygiadau heb eu cynnal mewn mwy na blwyddyn. Sefydliadau risg is yn bennaf oedd y rhain, a sefydliadau heb sgôr. Mae'r ASB wedi mabwysiadu dull graddedig o reoli perfformiad ac mae wedi gweithio gyda'r awdurdodau lleol hyn er mwyn i fynd i'r afael â'r ôl-groniad (*backlog*) o ymyriadau. Roedd hyn yn cynnwys ymweld ag awdurdodau lleol, yn ôl yr angen, i drafod eu cyfrifoldeb statudol i gynnal ymyriadau hylendid bwyd yn amserol. Bydd yr ASB yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol wrth adfer rheolaethau swyddogol yn dilyn pandemig COVID-19 ac yn pwysleisio pwysigrwydd arolygiadau ar gyfer sicrhau llwyddiant parhaus y Cynllun.
- 5.6. Mae'r Ddeddf yn nodi nifer o swyddogaethau sy'n ymwneud â rhoi gwybod am sgoriau, a gwybodaeth benodol arall, i fusnesau bwyd a'r ASB, ynghyd â'r dull a'r amserlen ragnodedig. Mae'r ASB yn monitro prydlondeb data sgoriau ac, yn gyffredinol, mae'n fodlon bod awdurdodau lleol wedi darparu gwybodaeth am sgoriau yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Cysondeb

- 5.7. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd adolygu'r broses o weithredu'r Cynllun yn eu hardaloedd yn rheolaidd gyda'r nod o sicrhau bod y meini prawf sgorio yn cael eu hasesu'n deg ac yn gyson.
- 5.8. Mae gweithredu'r Cynllun yn gyson yn hanfodol er mwyn sicrhau bod busnesau'n cael eu trin yn deg ac yn gyfartal a bod defnyddwyr yn gallu cymharu sgoriau hylendid mewn ffordd ystyrlon, a hynny o fewn un awdurdod lleol ac ar draws gwahanol awdurdodau lleol.
- 5.9. Er mwyn sicrhau cysondeb, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol dalu sylw i'r Canllawiau Statudol, ymgymryd â threfniadau monitro mewnol sy'n cynnwys gweithredu i fynd i'r afael ag anghysondebau a nodir a chymryd rhan mewn ymarferion hyfforddi a chysondeb.

5.10. Mae'r ASB wedi hwyluso gweithgareddau cysondeb cenedlaethol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac wedi ariannu digwyddiadau hyfforddi yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y pedwerydd ymarfer cysondeb cenedlaethol a lansiwyd ym mis Tachwedd 2018 am chwe wythnos. Amlinellwyd canlyniadau'r ymarfer hwn yn yr adroddiadau ar yr adolygiad o weithrediad y system apelio yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019 a mis Chwefror 2020. Lansiwyd pumed ymarfer cysondeb cenedlaethol ym mis Medi 2020 ac, oherwydd y cyfyngiadau a ragwelwyd ar adnoddau awdurdodau, cafodd ei gynnal am gyfnod o 12 wythnos hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2020. Bydd yr ASB yn casglu'r canlyniadau ac yn rhannau'r rhain ag awdurdodau lleol, ynghyd â'r sgoriau disgwylidig a'r rhesymau dros y rheiny. Bydd yr ASB hefyd yn paratoi adroddiad cryno a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2021.

5.11. Mae'r ASB yn parhau i ariannu hyfforddiant cysondeb ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru dan arweiniad Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yng Nghyngor Sir Powys. Cynhaliwyd y cyrsiau yn ystod 2018 a 2019 ac fe gymerodd 211 o swyddogion ran ynddynt. Yn ystod y digwyddiadau hyn, mae swyddogion yn ystyried nifer o senarios diogelwch bwyd go iawn ac mae gofyn iddynt ddyrannu'r sgoriau cydran sy'n uno i greu'r sgôr hylendid. Mae'r digwyddiadau hyn wedi dangos lefel uchel o gysondeb yn sgoriau Atodiad 5 a sgoriau hylendid bwyd. Lle daethpwyd ar draws gwahaniaethau, yn dilyn trafodaeth grŵp roedd cyfle i swyddogion ail-sgorio'r senario. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl gweld budd y digwyddiad wrth i sgoriau ddod yn fwy cyson wrth ail-sgorio. Ni threfnwyd unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi i gefnogi'r Cynllun yn 2020 oherwydd cyfraniad awdurdodau lleol at yr ymateb i COVID-19.

Argymhelliad 2: Mae'r ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n rhoi sgôr i fusnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn ymarferion cysondeb.

5.12. Parhaodd Grŵp Llywio Cymru, a sefydlwyd i gydlynu gweithrediad effeithiol y Cynllun, darparu cyfeiriad strategol a hwyluso cysondeb, i gwrdd bob chwarter ac fe gynhaliodd 8 cyfarfod yn ystod 2018 a 2019. Yn 2020, gohiriwyd cyfarfodydd mis Mawrth, mis Mehefin a mis Tachwedd mewn ymateb i geisiadau aelodau o ganlyniad i wrthdaro blaenoriaethau a wynebwyd gan swyddogion awdurdodau lleol yn sgil yr ymateb i COVID-19. Cynhaliwyd y cyfarfod ym mis Medi 2020.

Argymhelliad 3: Mae'r ASB yn parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio Cymru i sicrhau llwyddiant a datblygiad parhaus y Cynllun.

6. Adolygu Gweithrediad y System Apelio

- 6.1. Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o fesurau diogelwch ar gyfer busnesau bwyd er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn deg. Maent yn cynnwys yr hawl i weithredwr busnes bwyd apelio yn erbyn sgôr, 'hawl i ymateb', a'r cyfle i ofyn am arolygiad ailsgorio. Mae dadansoddiad manwl o'r rhain i gyd wedi'i gynnwys yn yr adran hon.
- 6.2. Darparwyd gwybodaeth yn dilyn yr adolygiadau ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2017 i 27 Tachwedd 2019 yn [adroddiad blynyddol mis Chwefror 2019](#)⁸ ac [adroddiad blynyddol Chwefror 2020](#)⁹. Mae'r adroddiad ar yr adolygiad ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2019 a 27 Tachwedd 2020 wedi'i gynnwys isod.
- 6.3. Mae'r ASB yn cydgasglu data a ddarperir gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru bob chwe mis i ategu ei data ei hun ac er mwyn helpu i lywio'r adolygiad. Gofynnwyd am y rhain ym mis Mai a mis Tachwedd 2020. Gan gydnabod yr amgylchiadau heriol a'r rôl hanfodol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae yn yr ymateb iechyd y cyhoedd ehangach sy'n ofynnol i reoli pandemig COVID-19, yn dilyn trafodaeth â chynrychiolwyr awdurdodau lleol, cytunwyd na fyddai cais am y data yn 2020. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn bwysig er mwyn sicrhau bod darlun llawn a chywir yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau statudol. Dylai'r penderfyniad i beidio â gofyn am yr wybodaeth yn 2020 gael ei ystyried yn eithriadol.
- 6.4. Daw'r crynodeb isod o'r wybodaeth sydd gan yr ASB, ac mae'n bosibl na fydd yn gyflawn.

Apelio

- 6.5. Gall busnesau apelio, yn rhad ac am ddim, i'w hawdurdod lleol cyn pen 21 diwrnod o'r dyddiad y mae'n cael gwybod am y sgôr. Gellir apelio yn erbyn y sgôr lle nad yw'r busnesu bwyd yn cytuno bod y sgôr yn adlewyrchu'n gywir y safonau hylendid bwyd yn y sefydliad adeg yr arolygiad a/neu na chafodd y meini prawf sgorio eu rhoi ar waith yn gywir wrth bennu'r sgôr hylendid bwyd. Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu ar yr apêl a rhoi gwybod i'r busnes bwyd a'r ASB o'i benderfyniad cyn pen 21 diwrnod wedi i'r apêl ei gyrraedd.
- 6.6. Cyngor yr ASB mewn perthynas ag apeliadau yn ystod pandemig COVID-19 yw, gan na ddylai fod yn angenrheidiol ymweld â'r safle i benderfynu ar apêl, y gall awdurdodau lleol barhau i ystyried y rhain. Dylid eu cynnal yn unol â'r gofynion deddfwriaethol yng Nghymru.

⁸ <https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld12230/gen-ld12230-w.pdf>

⁹ <https://senedd.cymru/laid%20documents/gen-ld13059/gen-ld13059%20-w.pdf>

- 6.7. O'r wybodaeth a gedwir gan yr ASB, cofnodwyd cyfanswm o 32 apêl ar draws 11 awdurdod lleol am y cyfnod 28 Tachwedd 2019 i 27 Tachwedd 2020. Daeth y rhan fwyaf o'r rhain i law cyn mis Mawrth 2020. Penderfynwyd ar bob apêl o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod. Ar ôl penderfynu ar y 32 apêl a godwyd, fe wnaeth 31 sgôr aros yr un fath a chafodd un sgôr ei newid gan arwain at sgôr uwch.
- 6.8. Mae'r niferoedd hyn yn sylweddol is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Er mai cyngor yr ASB oedd y gall awdurdodau lleol barhau i ystyried apeliadau, mae'n ymddangos bod cyngor yr ASB i ohirio ymyriadau wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr arolygiadau arferol a gynhaliwyd lle byddai sgôr wedi'i dyfarnu sydd, yn ei dro, wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr apeliadau yn erbyn y newidiadau hyn mewn sgoriau.

Cais i Gyhoeddi Sgôr yn Gynnar

- 6.9. Yn 2019, cyflwynodd yr ASB broses newydd a oedd yn galluogi gweithredwyr busnesau bwyd i gyhoeddi eu sgôr ('0' – '4') ar wefan y Cynllun Sgorio yn gynnar trwy gyflwyno ffurflen i'w hawdurdod lleol yn gofyn am ei chyhoeddi'n gynnar. Yn flaenorol, ni ellid cyhoeddi sgoriau is na '5' ar y wefan nes bod y cyfnod apelio 21 diwrnod wedi dod i ben. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl y gweithredwr i apelio. Ers ei gyflwyno ym mis Hydref 2019, bu 46 cais i gyhoeddi sgoriau'n gynnar ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Daeth 30 o'r rhain gan fusnesau â sgôr o '4'; 14 gan fusnesau a oedd â sgôr o '3'; 1 gan fusnes gyda sgôr o '2'; ac 1 o fusnes gyda sgôr o '1'.
- 6.10. Roedd yr adroddiad ar yr adolygiad o'r system apelio a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020 yn argymhell y dylai'r ASB "gynnal adolygiad o'r defnydd o'r dewis Cais i Gyhoeddi Sgôr yn Gynnar ac asesu ei effaith ar awdurdodau lleol yng Nghymru." Nid yw'r gwaith hwn wedi dechrau eto gan fod y cyfyngiadau ar adnoddau awdurdodau lleol yn golygu na allant gymryd rhan ar hyn o bryd. Mae'r ASB yn ystyried bod safbwyntiau awdurdodau lleol yn rhan hanfodol o'r adolygiad, a bydd yn cynnal yr adolygiad ar adeg briodol.

Hawl i Ymateb

- 6.11. Diben yr hawl i ymateb yw galluogi gweithredwyr busnesau bwyd i esbonio'r camau y maent wedi'u cymryd yn dilyn yr arolygiad lle cafodd y sgôr ei dyfarnu neu i roi gwybodaeth am unrhyw amgylchiadau adeg yr arolygiad. Mae gan weithredwyr busnesau bwyd yr hawl i ymateb, a gellir cyhoeddi'r ymatebion hyn ar wefan y Cynllun, ochr yn ochr â'r sgôr dan sylw.

- 6.12. Dim ond tri sylw hawl i ymateb a ddaeth i law ac a gyhoeddwyd gan weithredwyr busnesau bwyd yn ystod y cyfnod 28 Tachwedd 2019 i 27 Tachwedd 2020. Er mai'r hawl i ymateb yw'r swyddogaeth a ddefnyddir ielfiaf o'r mesurau diogelwch, mae'r ffigur hwn hefyd yn sylweddol is nag mewn blynyddoedd blaenorol (19 ym mis Chwefror 2020 a 26 yn 2019). Mae gohirio arolygiadau wedi arwain at ostyngiad yn nifer y newidiadau mewn sgoriau hylendid bwyd, ac mae'n bosibl, i'r busnesau hynny lle bu newid yn eu sgôr, fod eu ffocws ar flaenoriaethau eraill eleni.
- 6.13. Roedd yr adroddiad ar yr adolygiad o'r system apelio a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020 yn argymhell "bod yr ASB yn archwilio'r rhesymau dros y defnydd isel o'r mesur diogelu hawl i ymateb yng Nghymru." Byddwn yn ymgymryd â'r gwaith hwn ar adeg briodol.

Ceisiadau am Arolygiadau Ailsgorio

- 6.14. Mae mesurau diogelu'r Cynllun yn cynnwys hawl gweithredwyr busnesau bwyd i ofyn am arolygiad ailsgorio, lle maent wedi cynnal unrhyw welliannau gofynnol. Mae'r mesur diogelwch hwn yn caniatáu i'r busnes unioni elfennau nad ydynt yn cydymffurfio cyn bod eu sgôr yn cael ei hailasesu cyn yr arolygiad rheolaidd nesaf. Rhaid cynnal arolygiadau ailsgorio dim hwyrach na thri mis ar ôl i gais ddod i law. Mae'r awdurdod yn codi ffi am y ceisiadau hyn ac mae'n rhaid i weithredwr y busnes bwyd fodloni rhai amodau cyn y gellir cynnal arolygiad at ddibenion ailsgorio. Mae'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol gyfrifo'r gost resymol ar gyfer arolygiadau ailsgorio, ac mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cytuno ar y cyd ar y ffi ar gyfer arolygiad ailsgorio, sef £180 ar hyn o bryd. Mae'r gost hon yn cael ei hadolygu'n barhaus a chafodd ei chynyddu ddiwethaf gan awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019.
- 6.15. Roedd cyngor yr ASB dyddiedig 20 Mawrth a 21 Ebrill 2020, mewn perthynas â cheisiadau ailsgorio, yn nodi y dylid eu gohirio. Er y cafodd cyngor yr ASB ei ddiweddarau ym mis Mehefin 2020 gyda'r nod o hwyluso gweithrediad mwy arferol o'r Cynllun, ymhlith pethau eraill, nid yw hyn wedi cael amser i effeithio ar geisiadau ailsgorio hyd at 27 Tachwedd 2020.
- 6.16. Yn ystod y cyfnod 28 Tachwedd 2019 i 31 Mawrth 2020, o'r wybodaeth a gedwir gan yr ASB, cafodd awdurdodau lleol yng Nghymru 77 o geisiadau ailsgorio. Cafodd 49 o'r rhain eu hystyried, a chafodd 45 eu hailsgorio o fewn yr amserlen o dri mis, a phedwar y tu allan i'r amserlen statudol. Fe wnaeth pob un o'r 49 cais am arolygiadau ailsgorio arwain at sgôr newydd, gyda 46 o sefydliadau yn cael sgôr well a thri yn cael sgôr is. Cafodd y 28 cais ailsgorio a oedd yn weddill eu gohirio neu eu gadael oherwydd COVID-19. Ni chasglwyd data y tu hwnt i Ebrill 2020.

Argymhelliad 4: Mae'r ASB yn darparu unrhyw ddata ychwanegol ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2019 i 27 Tachwedd 2020 ar y cyfle cynharaf.

7. Gorfodi

- 7.1. Mae gan awdurdodau lleol nifer o ddewisiadau ar gael iddynt i sicrhau bod busnesau bwyd yn gweithredu gofynion y Cynllun. Dylid datrys achosion o ddiffyg cydymffurfio yn anffurfiol i ddechrau trwy annog trafodaeth adeiladol rhwng yr awdurdod lleol a'r busnes bwyd dan sylw, yn unol â'r Cod.
- 7.2. Lle na chaiff achos o ddiffyg cydymffurfio ei ddatrys yn hawdd neu'n gyflym gan ddefnyddio dull anffurfiol, mae gan swyddogion awdurdodedig y disgrisiwn i roi Hysbysiad Cosb Benodedig. Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi'r cyfle i fusnes bwyd osgoi unrhyw gollfarn am drosedd drwy dalu cosb benodedig (gweler Adran 21 o'r Ddeddf). Gellir rhoi Hysbysiadau Cosb Benodedig am droseddau fel methu â dangos sticer sgôr dilys yn iawn, methu â darparu'r wybodaeth gywir am sgôr ar lafar ar gais, methu â darparu'r datganiad rhagnodedig ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn y modd gofynnol ac am arddangos gwybodaeth annilys am sgoriau ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd.
- 7.3. Pan roddir Hysbysiad Cosb Benodedig, mae ffi o £200 yn daladwy, neu £150 os gwneir taliad o fewn 14 diwrnod. Ni chaniateir cychwyn achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.
- 7.4. Yn wreiddiol, roedd yn rhaid i dderbynebau o Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer troseddau sgorio hylendid bwyd gael eu dychwelyd i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, cyflwynodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ddiwygiad sy'n galluogi awdurdodau lleol i gadw'r derbynebau hyn i gefnogi gweithgareddau mewn perthynas â gorfodi'r Ddeddf.
- 7.5. Cytunodd yr ASB, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol yng Nghymru, i gasglu ac adrodd ar well data o fis Tachwedd 2018. Roedd hyn yn golygu bod modd gwerthuso ac asesu effaith awdurdodau lleol yn cadw derbynebau Hysbysiadau Cosb Benodedig yn well.
- 7.6. Roedd y data sylfaenol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn y flwyddyn o fis Tachwedd 2017 yn dangos bod 162 o Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'u rhoi, a oedd wedi cynyddu o 59 yn y flwyddyn flaenorol. Efallai bod y cynnydd yn nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig yn adlewyrchu diwedd y cyfnod pontio a roddwyd i fusnesau gydymffurfio â'r gofyniad i gynnwys datganiad dwyieithog ar rai deunyddiau cyhoeddusrwydd yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016. Cytunodd awdurdodau lleol hefyd i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer pob trosedd lle roedd busnes eisoes wedi cael rhybudd.


- 7.7. Mae awdurdodau lleol wedi rhoi gwybod bod 195 o Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'u rhoi yn y flwyddyn o fis Tachwedd 2018, pan ddechreuwyd ar y broses o gasglu data gwell. Cafodd taliadau eu gwneud am 86 y cant o'r Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd gyda'r rhan fwyaf o'r taliadau (73 y cant) yn cael eu gwneud yn gynnar ar y gyfradd ostyngedig is. Yn yr 14 y cant o achosion lle na gwnaed taliad, roedd y rhesymau a nodwyd gan awdurdodau lleol yn cynnwys bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cael eu herlyn am y drosedd, bod erlyniadau yn cael eu hystyried neu eu paratoi neu fod yr Hysbysiad wedi'i dynnu'n ôl gan nad oedd y busnes yn masnachu mwyach gan fod newid yng ngweithredwr y busnes bwyd. Mewn 86 y cant o achosion, roedd y rhesymau dros roi Hysbysiadau Cosb Benodedig yn ymwneud â materion arddangos sticeri, gyda'r achosion a oedd yn weddill yn ymwneud â phroblemau gyda deunyddiau cyhoeddusrwydd. Y categori busnes a ddenodd y mwyafrif o Hysbysiadau Cosb Benodedig oedd siopau tecawê (33 y cant), ac yna bwytai/caffis/ffreuturau (30 y cant).
- 7.8. Yn y flwyddyn o fis Tachwedd 2019, cyfyng yw'r data sydd wedi'i gadw oherwydd effeithiau pandemig COVID-19. Dychwelwyd rhywfaint o ddata yn wirfoddol gan naw awdurdod lleol ar gyfer y cyfnod cychwynnol o chwe mis a ddaeth i ben ar 31 Mai 2020, a nododd fod 23 o Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'u dyfarnu. Mae'n debygol bod effaith y pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar weithgarwch gorfodi, yn arbennig ar gyfer diwedd 2020.
- 7.9. Gall awdurdodau lleol gychwyn achos erlyn ac maent wedi rhoi gwybod am sawl erlyniad llwyddiannus dros y cyfnod o dair blynedd. Roedd y rhain yn cynnwys erlyniadau am droseddau yn ymwneud â'r methiant i arddangos sgôr ddilys yn iawn ac am y methiant i ddarparu'r datganiad rhagnodedig ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd. Mewn rhai achosion, cafodd troseddau o dan y Cynllun eu cynnwys gydag erlyniadau am droseddau hylendid bwyd o dan ddeddfwriaeth arall.

Argymhelliad 5: Mae'r ASB yn gofyn am wybodaeth fanylach gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag erlyniadau yn eu data sy'n berthnasol i'r Cynllun i wella lefel yr adrodd a chaniatáu gwell dadansoddi.


8. Effaith y Cynllun

Cydymffurfiaeth ac Agweddau Busnesau Bwyd

- 8.1. Rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Tachwedd 2020, mae cyfran y busnesau bwyd sy'n cydymffurfio i raddau helaeth (gyda sgôr rhwng '5' a '3') wedi cynyddu o 95.2 y cant i 96.7 y cant. (Ffigur 5). Er bod hyn yn dangos bod y Cynllun yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar gydymffurfiaeth busnesau, mae angen cydnabod bod rhai rheolaethau swyddogol a oedd wedi'u cynllunio gan awdurdodau lleol wedi'u gohirio o fis Mawrth 2020 yn unol â chyngor yr ASB a bod cynnydd yn nifer y busnesau bwyd sy'n aros am arolygiad.



- 8.2. Ategir hyn gan ostyngiad yng nghyfran y busnesau nad ydynt yn cydymffurfio (gyda sgôr rhwng '2' a '0'), gan ostwng o 4.8 y cant i 3.3 y cant.
- 8.3. Mae'r newid yn y gyfran ar gyfer pob sgôr fel a ganlyn, ac fe'i dangosir yn Ffigur 6 bob chwarter:
- Mae busnesau sydd â sgôr o '5' wedi cynyddu o 65.1 y cant i 69.5 y cant
 - Mae busnesau sydd â sgôr o '4' wedi gostwng o 21.7 y cant i 19.7 y cant. Mae busnesau sydd â sgôr o '3' wedi gostwng o 8.4 y cant i 7.5 y cant
 - Mae busnesau sydd â sgôr o '2' wedi gostwng o 2.3 y cant i 1.5 y cant
 - Mae busnesau sydd â sgôr o '1' wedi gostwng o 2.3 y cant i 1.7 y cant
 - Mae busnesau sydd â sgôr o '0' wedi gostwng o 0.2 y cant i 0.1 y cant



- 8.4. Mae'r ASB yn parhau i ddarparu cyllid grant i awdurdodau lleol yn flynyddol i gynnal ymyriadau wedi'u targedu mewn sefydliadau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio. Y nod wrth ddarparu'r cyllid hwn yw cynyddu cydymffurfiaeth busnesau trwy gyfrwng gwelliannau i'r trefniadau Rheoli Diogelwch Bwyd.
- 8.5. Rhwng blynyddoedd ariannol 2018-2019 a 2019-2020, fe wnaeth sawl awdurdod lleol yng Nghymru gais am y cyllid grant hwn. Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd yn cynnwys ymweliadau hyfforddi ac ymyriadau ar y safle i fusnesau nad oeddent yn cydymffurfio, cyflwyno seminarau a chyfieithu pecynnau gwybodaeth ar reoli alergennau er budd busnesau lle nad Saesneg yw'r iaith gyntaf.
- 8.6. Cytunodd Grŵp Llywio Cymru, yn sgil gorfod ail-flaenoriaethu gwaith yn ymwneud â phandemig COVID-19, na fyddai gan awdurdodau lleol yr adnoddau angenrheidiol i wneud cais am gyllid a chynnal ymyriadau wedi'u targedu mewn busnesau bwyd nad oeddent yn cydymffurfio ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021.
- 8.7. Yn 2019, cytunodd Grŵp Llywio Cymru i sefydlu grŵp tasg ar-lein i gynnwys cynrychiolwyr yr ASB a chynrychiolwyr awdurdodau lleol rhanbarthol i gynnal adolygiad a gwerthusiad o brosiectau Rheoli Diogelwch Bwyd blaenorol. Nod yr adolygiad yw rhoi enghreifftiau o arfer da yng Nghymru i awdurdodau lleol i gynorthwyo gyda chynigion am arian grant yn y dyfodol.
- 8.8. Mae'r broses adolygu wedi'i gohirio dros dro oherwydd gorfod ail-flaenoriaethu gwaith yn gysylltiedig â phandemig COVID-19.

8.9. Mae'r ASB hefyd wedi comisiynu adroddiadau ymchwil yn asesu lefelau arddangos sgoriau gan fusnesau ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:

- [Adroddiad Ymchwil: Arddangos sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – 2018¹⁰](#)
- [Adroddiad Ymchwil: Arddangos sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – 2019¹¹](#)
- [Adroddiad Ymchwil: Arddangos sgoriau hylendid bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – 2020¹²](#)

8.10. Roedd yr ymchwil yn cynnwys gwirio cyfraddau arddangos sticeri hylendid bwyd mewn busnesau bwyd ac arolwg ffôn i archwilio agweddau busnesau tuag at y Cynllun.

8.11. Canfu'r ymchwil, yng Nghymru, yn 2020, fod 89 y cant o'r busnesau a arolygwyd yn arddangos eu sticeri sgorio hylendid bwyd fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Roedd hyn yn gynnydd ar flynyddoedd blaenorol (87 y cant yn 2019 ac 84 y cant yn 2018) ac mae'n parhau i ddangos effaith gadarnhaol y cynllun gorfodol.

8.12. Dywedodd busnesau bwyd mai'r ffactor mwyaf cyffredin (62 y cant) a oedd yn eu hannog i arddangos y sticer yn 2020 oedd natur orfodol y Cynllun (o'i gymharu â 71 y cant yn 2019 a 64 y cant yn 2018), a'r ail ffactor (58 y cant) oedd sicrwydd defnyddwyr (o'i gymharu â 47 y cant yn 2019 a 37 y cant yn 2018). Cyfeiriodd 29 y cant o fusnesau at falchder yn eu sgôr.

8.13. Gwelwyd cynnydd o saith y cant hefyd yn nifer y busnesau a nododd fod arddangos eu sgôr wedi cael effaith gadarnhaol ar eu busnes yn 2020, i fyny i 38 y cant o 31 y cant yn 2019. Dywedodd dau y cant o fusnesau fod arddangos eu sgôr wedi cael effaith negyddol ar eu busnes yn unol â chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol.

8.14. Arhosodd y busnesau hynny gyda sgôr is na '5' a nododd eu bod wedi gweithredu i wella eu sgôr yn gyson ar draws y tair blynedd (81 y cant yn 2020, 82 y cant yn 2019 ac 81 y cant yn 2018).

¹⁰ https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/Display_of_Food_Hygiene_Ratings_in_England%2C_Wales_%26_Northern_Ireland_0.pdf

¹¹

https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/food_hygiene_ratings_display_england_northern_ireland_wales_2018_0.pdf

¹² <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/display-of-food-hygiene-ratings-in-england-northern-ireland-and-wales.pdf>

Ymwybyddiaeth Defnyddwyr

- 8.15. Yn 2019 cyhoeddodd yr ASB ei hadroddiad ar bumed [arolwg ymchwil 'Bwyd a Chi'](#)¹³, sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd ac sy'n monitro ac yn olrhain newidiadau mewn agweddau defnyddwyr tuag at fwyd. Mae'r arolwg yn darparu data allweddol ar wybodaeth, agweddau ac ymddygiadau mewn perthynas â diogelwch bwyd a materion sy'n ymwneud â bwyd.
- 8.16. Roedd yr arolwg yn cynnwys 536 o gyfweiliadau ag unigolion 16 oed a hŷn ac fe'i gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2018 ledled Cymru. Un o themâu'r arolwg yw bwyta allan, gyda chwestiynau am ymwybyddiaeth a defnydd o'r Cynllun.
- 8.17. Roedd y prif ganfyddiadau yng Nghymru fel a ganlyn:
- Cynnydd parhaus yn y nifer sy'n adnabod y Cynllun gyda 94 y cant o'r rhai a arolygwyd yn adnabod sticeri sgorio Cymru (cynnydd o 89 y cant yn 2016).
 - I 71 y cant o'r ymatebwyr, sgôr hylendid dda oedd y ffactor pwysicaf a oedd yn dylanwadu ar benderfyniadau ar ble i fwyta allan.
 - Mae pobl iau rhwng 16 a 44 oed yn fwy tebygol o sôn am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.
- 8.18. Cynhaliwyd [Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd](#)¹⁴ y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (sy'n cael ei gynnal dwywaith y flwyddyn) ym mis Tachwedd 2019 a oedd yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb â 2,101 o oedolion 16 oed a hŷn. Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr a nododd eu bod yn ymwybodol o safonau hylendid yn y lleoedd y maent yn bwyta allan neu'n prynu bwyd ynddynt mai'r sticeri sgoriau hylendid bwyd oedd y ffynhonnell yr oeddent yn cyfeirio ati (64 y cant). Mae hyn yn gyson â chylchoedd cynharach yr arolwg tracio.
- 8.19. Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd yr ASB y byddai'n cyfuno arolwg 'Bwyd a Chi' a'r 'Arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd' yn yn arolwg modiwlaidd newydd o'r enw 'Bwyd a Chi 2' a fyddai'n cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn. Bydd hyn yn rhoi mynediad i'r data mwyaf cynrychioliadol a chywir ar ddefnyddwyr.
- 8.20. Cynhaliwyd Cylch 1 rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2020 a bydd yr ASB yn cyhoeddi'r adroddiad ddechrau 2021. Fodd bynnag, bydd y Cynllun ac elfennau 'bwyta allan' yr ymchwil yn rhan o Gylch 2, a disgwylir i'r canlyniadau gael eu hadrodd ym mis Ebrill/Mai 2021.

¹³ <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/food-and-you-wave-5-combined-report.pdf>

¹⁴ <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fhrs-consumer-tracker-report-wave-8.pdf>

9. Datblygiadau yn y Dyfodol

Cynllun Statudol yn Lloegr

- 9.1. Mae'r ASB yn bwrw ymlaen â'i huchelgais ar gyfer ei gwneud yn orfodol i arddangos sgoriau yn Lloegr ac ym mis Mawrth 2020, cyflwynodd yr achos i Weinidogion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) i'w ystyried. Mae'r ymateb wedi'i ohirio oherwydd y pandemig COVID-19.

Arddangos Sgoriau Ar-lein

- 9.2. Mae'r ASB wedi dechrau gweithio i nodi dewisiadau ar gyfer cyflwyno gofyniad cymesur ar gyfer darparu sgoriau hylendid bwyd ar-lein. Yr amcan yw darparu gwybodaeth gredadwy ac ystyrlon i ddefnyddwyr am fusnesau bwyd sy'n gweithredu ar-lein gan sicrhau bod unrhyw ofyniad yn caniatáu ar gyfer gorfodi cyson. Roedd y gwaith hyd at fis Ebrill 2020 yn canolbwyntio ar gwmpasu a chasglu tystiolaeth trwy bedwar prif llif gwaith gan ganolbwyntio ar ddefnyddwyr, busnesau/diwydiant bwyd, awdurdodau lleol a'r datrysiad digidol.
- 9.3. Roedd yr ASB yn rhagweld y byddai'r cam cwmpasu wedi'i gwblhau erbyn diwedd haf 2020. Fodd bynnag, mae'r gwaith wedi'i ohirio gan gydnabod y bydd ffocws awdurdodau lleol a busnesau bwyd ar bethau eraill o ganlyniad i bandemig COVID-19. Bydd yr ASB yn parhau i adolygu'r sefyllfa ac yn ailgydio yn y gwaith unwaith y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

Argymhelliad 6: Bydd yr ASB yn gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i sicrhau bod datrysiadau digidol a ddatblygir i gefnogi Cynllun ar-lein yng Nghymru yn bodloni Safon Gwasanaeth Digidol Llywodraeth Cymru.

Adolygiad o'r Eithriad ar gyfer Gwarchodwyr Plant

- 9.4. Mae gwarchodwyr plant sy'n gweithredu o safleoedd sydd hefyd yn cael eu defnyddio fel anheddau (*dwellings*) preifat wedi'u heithrio o'r Cynllun. Er mwyn sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn cael yr wybodaeth berthnasol, roedd adroddiad 2018 yn cynnwys argymhelliad i'r ASB weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i adolygu'r eithriad cyfredol ar gyfer gwarchodwyr plant a darparu argymhellion priodol i Weinidogion Cymru.

- 9.5. Mae'r ASB wedi comisiynu prosiect ymchwil annibynnol i archwilio'r opsiwn o ehangu cwmpas y Cynllun i gynnwys gwarchodwyr plant. Mae'r prosiect, a ddechreuodd ym mis Hydref 2020, yn cynnwys cyfres o weithdai a chyfweliadau manwl gyda rhanddeiliaid allweddol sy'n cynnwys gwarchodwyr plant, rhieni, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar. Y nod yw casglu safbwyntiau a thystiolaeth, archwilio dewisiadau posibl a nodi'r heriau a'r rhwystrau i helpu i lywio unrhyw argymhellion yn y dyfodol i Weinidogion Cymru.
- 9.6. Disgwylir i'r ymchwil ddod i ben gydag adroddiad yng Ngwanwyn 2021 a fydd yn helpu i lywio'r camau nesaf.

Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau

- 9.7. Ym mis Ionawr 2020, aeth Bwrdd yr ASB ati i ystyried statws cyfredol rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol a chynnig y camau nesaf ar gyfer ail gam y gwaith dan y teitl 'Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau'. Cytunodd Bwrdd yr ASB ar raglen waith wedi'i hadnewyddu sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol canlynol:
- Mapio'r system yn barhaus ar draws parthau'r wladwriaeth, y farchnad a'r defnyddiwr
 - Esblygiad a chywreirwydd y system gyfredol sy'n seiliedig ar awdurdodau lleol
 - Dulliau sy'n adeiladu ar ddata a chyfleoedd digidol gan ddechrau gyda rhannau o'r farchnad (er enghraifft llwyfannau neu fanwerthwyr mawr) lle mae'n bosibl nad dull seiliedig ar safleoedd fyddai'r mwyaf priodol.

Defnyddio asesiadau o bell ar gyfer y Cynllun

- 9.8. Fel rhan o'r ymateb i COVID-19, mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio asesiadau o bell i lywio'r angen am ymyriad ar y safle neu i helpu i ganolbwyntio ymyriad dilynol ar y safle. Comisiynodd yr ASB werthusiad annibynnol o'r defnydd o ymyriadau o bell, ac mae'r adroddiad wrthi'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Argymhelliad 7: Mae'r ASB yn ystyried y Cynllun statudol a safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wrth ystyried unrhyw un o'i gynigion ar ddyfodol y system reoleiddio.

Cofrestru Busnesau Bwyd

- 9.9. Ym mis Medi 2018, lansiodd yr ASB y gwasanaeth Cofrestru Busnesau Bwyd, sef gwasanaeth cofrestru digidol newydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig taith gyson i ddefnyddwyr ac mae'n gyflym ac yn hawdd ei chwblhau o unrhyw ddyfais symudol. Mae'r defnyddiwr yn cael cadarnhad ar unwaith bod ei gofrestrriad wedi'i gwblhau, ynghyd â manylion cyswllt ei awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth Cofrestru Busnesau Bwyd hefyd yn rhoi canllawiau diogelwch bwyd defnyddiol i weithredwyr busnesau bwyd, gan gynnwys gwybodaeth am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, i'w helpu i sefydlu eu busnesau bwyd.
- 9.10. Gall awdurdodau lleol ddewis o wahanol opsiynau cysylltu sy'n addas i'w systemau TG ac mae'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth eisoes wedi nodi ei fod yn cynnig ffordd dda o weithio ac yn lleihau'r angen am drin papur. Nid yw'n orfodol i awdurdodau lleol ddefnyddio'r gwasanaeth, ond mae'r ASB yn parhau i'w hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth ac yn cefnogi'r rhai sy'n gwneud hynny. Ar hyn o bryd, mae dros 50 y cant o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u cysylltu â'r gwasanaeth.
- 9.11. Mae'r ASB wrthi'n datblygu fersiwn Gymraeg a fydd yn cael ei chyflwyno yng ngwanwyn 2021. Bydd hyn yn galluogi gweithredwyr busnesau bwyd i gofrestru a chael gwybodaeth am y Cynllun yn Gymraeg.
- 9.12. Mae'r ASB yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar ac mae rhaglen waith wedi'i chynllunio i godi ymwybyddiaeth o'r gofyniad i gofrestru a manteision gwneud hynny. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda thrydydd partïon i helpu i gyfeirio busnesau bwyd newydd at y gwasanaeth cofrestru a chefnogaeth ac chanllawiau perthnasol sydd ar gael iddynt. Fel rhan o ddatblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol, mae'r ASB yn ystyried sut y gellir casglu gwybodaeth ddefnyddiol am fusnesau ar-lein sydd o fewn cwmpas y Cynllun.

10. Casgliadau

- 10.1. Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar weithrediad y Cynllun yng Nghymru. Mae swyddogion awdurdodau lleol wedi cael eu galw i gynorthwyo gyda'r ymateb, sydd wedi lleihau'r adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol o ran ymgymryd â rheolaethau hylendid bwyd swyddogol arferol yng Nghymru. Yn ystod 2020, mae hyn wedi golygu gostyngiad yn nifer y sgoriau hylendid bwyd sydd wedi'u dyfarnu a chynnydd sylweddol yn nifer y busnesau sy'n aros am arolygiad newydd neu arolygiad wedi'i raglennu.
- 10.2. Mae Gweinidogion Cymru a'r ASB yn parhau i gefnogi gweithrediad effeithiol a chyson y Cynllun yng Nghymru ac yn cyflawni eu swyddogaethau fel y nodir yn y ddeddfwriaeth.
- 10.3. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod awdurdodau lleol yn parhau i fod wedi'u hymrwymo'n gadarn i gynnal y Cynllun a'u bod yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gredadwy, yn gyfredol ac yn deg i bob busnes bwyd yng Nghymru. Yn gyffredinol, cyn mis Mawrth 2020, roedd awdurdodau lleol yn cynnal y Cynllun yn unol â gofynion a chanllawiau cyfreithiol.
- 10.4. Mae canfyddiadau ymchwil yn darparu tystiolaeth bod y Cynllun yn parhau i fod yn effeithiol wrth godi ymwybyddiaeth o safonau hylendid bwyd gyda 94 y cant o ddefnyddwyr yn adnabod sticeri sgorio. Mae cyfraddau arddangos busnesau bwyd hefyd wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed gydag 89 y cant o sefydliadau yn arddangos sgoriau yn unol â'r gyfraith.
- 10.5. Mae'r Cynllun yn parhau i gymell busnesau bwyd i wella cydymffurfiaeth â chyfraith diogelwch bwyd gyda chyfran y busnesau sydd â'r sgôr hylendid bwyd uchaf yn parhau i godi o un flwyddyn i'r llall ac yn cyrraedd 69.5 y cant ym mis Tachwedd 2020 (65.1 y cant yn 2017).

11. Argymhellion

11.1. Mae'r ASB yn gwneud yr argymhellion canlynol:

Argymhelliad 1:

Mae'r ASB, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru (DPPW) a Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (SSAFW) yn cydweithredu i ddatblygu blaengynllun ar gyfer arolygiadau a sgoriau hylendid bwyd yn y dyfodol.

Argymhelliad 2:

Mae'r ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n rhoi sgôr i fusnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn ymarferion cysondeb.

Argymhelliad 3:

Mae'r ASB yn parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio Cymru i sicrhau llwyddiant a datblygiad parhaus y Cynllun.

Argymhelliad 4:

Mae'r ASB yn darparu unrhyw ddata ychwanegol ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2019 i 27 Tachwedd 2020 ar y cyfle cynharaf.

Argymhelliad 5:

Mae'r ASB yn gofyn am wybodaeth fanylach gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag erlyniadau yn eu data sy'n berthnasol i'r Cynllun i wella lefel yr adrodd a chaniatáu gwell dadansoddi.

Argymhelliad 6:

Bydd yr ASB yn gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i sicrhau bod datrysiadau digidol a ddatblygir i gefnogi Cynllun ar-lein yng Nghymru yn bodloni Safon Gwasanaeth Digidol Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 7:

Mae'r ASB yn ystyried y Cynllun statudol a safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wrth ystyried unrhyw un o'i gynigion ar ddyfodol y system reoleiddio.

Atodiad 1. Camau Gweithredu mewn Ymateb i Argymhellion o Adroddiadau Cynharach

2018 – Adolygu'r broses o weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru

- A1.1. **Argymhelliad 1** – Diwygio Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 i adlewyrchu newidiadau i Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Parhaus – Mae'r ASB yn trafod gyda gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru i roi'r newid hwn ar waith ar ffurf Rheoliad diwygio. Ar hyn o bryd rhoddir blaenoriaeth ddeddfwriaethol i gyfnod pontio'r Undeb Ewropeaidd a gwaith sy'n gysylltiedig â COVID-19. Felly mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid deddfwriaethol yn digwydd cyn diwedd 2021.

- A1.2. **Argymhelliad 2** – Bod yr ASB yn gwerthuso effaith y diwygiad i'r Cynllun a gyflwynwyd gan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 mewn perthynas â chadw derbynebaw Hysbysiadau Cosb Benodedig, ar ddiwedd y cyfnod o flwyddyn.

Wedi'i gwblhau – Mae Grŵp Llywio Cymru wedi trafod a chadarnhau bod arian Hysbysiadau Cosb Benodedig a dderbynnir gan awdurdodau lleol yn cael ei gadw ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Cynllun.

- A1.3. **Argymhelliad 3** – Bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod ymyriadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder lleiaf a amlinellir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).

Wedi'i gwblhau – Anfonodd yr ASB llythyr at Brif Weithredwr pob awdurdod lleol yn hyn o beth. Mae'r ASB wedi monitro perfformiad awdurdodau lleol wrth gynnal ymyriadau i sicrhau y gellir cymryd camau priodol pan nodir unrhyw ddiffygion.

- A1.4. **Argymhelliad 4** – Bod yr ASB yn parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio Cymru i sicrhau llwyddiant a datblygiad parhaus y Cynllun.

Wedi'i gwblhau – Mae'r ASB wedi cynnal cyfarfodydd Grŵp Llywio Cymru bob chwarter, ac eithrio'r cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020 oherwydd pandemig COVID-19. Mae cyfarfodydd chwarterol bellach wedi ailddechrau ar-lein. Bydd yr ASB yn sicrhau bod y rhain yn parhau ar yr un amllder.

A1.5. **Argymhelliad 5** – Bod yr ASB yn cyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau ei harchwiliad o weithrediad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd gan awdurdodau lleol erbyn mis Mai 2018.

Wedi'i gwblhau – Cyhoeddodd yr ASB ei hadroddiad '[Archwiliad â Ffocws ar Waith Awdurdodau Lleol ar Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol yng Nghymru](#)'¹⁵ ar 18 Mawrth 2019, ac mae ar gael ar wefan yr ASB.

A1.6. **Argymhelliad 6** – Bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwybodaeth am sgoriau yn cael ei darparu i'r ASB yn unol â gofynion y Ddeddf.

Wedi'i gwblhau – Mae awdurdodau lleol wedi bod yn darparu rhestrau wedi'u diweddarau o fusnesau sydd â sgôr i'r ASB trwy blatfform y wefan sgorio o fewn y gofynion amlder a nodir yn y Canllawiau Statudol.

A1.7. **Argymhelliad 7** – Bod yr ASB, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn ystyried dewisiadau ar gyfer rhoi sicrwydd pellach i ddefnyddwyr mewn perthynas â busnesau bwyd risg is, a allai fod wedi bod yn destun ymyriad (ar wahân i arolygiad) ers cyhoeddi'r sgôr.

Parhaus – Mae'r ASB yn sefydlu grŵp gorchwyl o randdeiliaid allweddol i archwilio'r dewisiadau.

A1.8. **Argymhelliad 8** – Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth er mwyn sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

Wedi'i gwblhau – Mae'r ASB wedi cynnal ymarferion cysondeb ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2018 ac yn 2020. Mae ymarferion cysondeb hefyd wedi'u trefnu a'u cynnal ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru yn 2018 ac yn 2019. Bydd yr ASB yn parhau i drefnu a chefnogi awdurdodau lleol wrth drefnu lefelau cysondeb ar draws y tair gwlad, yn ogystal ag ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

¹⁵ <https://www.food.gov.uk/cy/arall/archwiliadau-a-ffocws>

A1.9. **Argymhelliad 9** – Bod awdurdodau lleol yn sicrhau y caiff yr holl apeliadau eu pennu o fewn 21 diwrnod wedi i'r apêl ddod i law, a bod gweithredwr y busnes yn cael ei hysbysu o fewn y cyfnod hwn hefyd. Lle mae oedi wedi digwydd yn y broses, dylai'r ASB ganfod y rhesymau dros yr oedi ac atgoffa awdurdodau lleol o'u hymrwymiaadau statudol.

Wedi'i gwblhau – Mae'r ASB wedi gweithredu dull gwell i gofnodi apeliadau sy'n caniatáu ar gyfer nodi apeliadau a bennir ar ôl y cyfnod o 21 diwrnod yn gyflym. Yn yr achosion lle mae hyn wedi digwydd, mae'r ASB wedi cysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol a chanfod y rheswm am yr oedi, ac mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau bod camau unioni wedi'u cymryd.

A1.10. **Argymhelliad 10** – Bod yr ASB yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol i sicrhau gwelliannau mewn cydymffurfiaeth busnesau trwy weithgareddau ymyrryd wedi'u targedu.

Wedi'i gwblhau – Mae'r ASB wedi darparu cyllid grant pellach i awdurdodau lleol yn 2018 ac yn 2019 i gynnal ymyriadau wedi'u targedu mewn sefydliadau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r nod o gynyddu cydymffurfiaeth busnesau trwy wella trefniadau Rheoli Diogelwch Bwyd. Ni chynhaliwyd hyn yn 2020 oherwydd goblygiadau pandemig COVID-19, gyda chytundeb awdurdodau lleol.

A1.11. **Argymhelliad 11** – Bod yr ASB yn comisiynu gwaith ymchwil pellach i benderfynu ar lefel gydymffurfio busnesau bwyd â gofynion Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgôr Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016.

Wedi'i gwblhau – Cwblhawyd y gwaith maes ym mis Mehefin 2018. Cyhoeddodd yr ASB yr adroddiad ar ei llwyfan cyfathrebu mewnol ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol sy'n ymwneud â'r Cynllun.

A1.12. **Argymhelliad 12** – Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio pa mor ymarferol fyddai cyflwyno gofyniad i ddarparu gwybodaeth am sgoriau ar lwyfannau archebu bwyd ar-lein.

Parhaus – Mae'r ASB wedi datblygu cynllun prosiect sy'n cynnwys ymchwil defnyddwyr, ymgysylltu â'r diwydiant, gweithdy gydag awdurdodau lleol a phrosiect darganfod i ddatblygu'r datrysiadau digidol perthnasol. Mae'r prosiect wedi'i ohirio am y tro er mwyn osgoi ychwanegu pwysau diangen ar randdeiliaid yn ystod pandemig COVID-19.

A1.13. **Argymhelliad 13** – Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i archwilio dewisiadau ar gyfer gwella gwybodaeth i ddefnyddwyr mewn perthynas â threfniadau busnes bwyd ar gyfer rheoli alergenau.

Parhaus – Trafododd Bwrdd yr ASB alergenau ym mis Mawrth, mis Mai, mis Mehefin a mis Medi 2019, ac ym mis Mawrth 2020. Mae Strategaeth Gorsensitifrwydd i Fwyd yr ASB yn cynnwys ymrwymiad i ystyried dewisiadau ar gyfer “cynllun diogelwch alergedd”, tebyg i'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, i ddarparu gwybodaeth am reoli alergenau. Comisiynwyd ymchwil gymdeithasol i ystyried sut y gallai'r ASB roi gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr am arferion rheoli alergenau busnesau. Bydd Grŵp Llywio Cymru yn monitro datblygiadau.

A1.14. **Argymhelliad 14** – Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i adolygu'r eithriad presennol ar gyfer gwarchodwyr plant, a darparu argymhellion priodol i Weinidogion Cymru.

Parhaus – Mae'r ASB wedi comisiynu prosiect ymchwil i archwilio safbwyntiau ac effaith ymestyn cwmpas y Cynllun i gynnwys gwarchodwyr plant. Bydd yr ASB yn cael adroddiad annibynnol a fydd yn cael ei ddefnyddio i wneud argymhelliad i Weinidogion Cymru.

2019 – Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd: Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru

A1.15. **Argymhelliad 1** – Bod yr ASB yn atgoffa awdurdodau lleol o'r angen i fod â threfniadau cadarn addas ar waith i benderfynu ar apeliadau ac i hysbysu gweithredwyr busnesau bwyd am y canlyniad o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod.

Wedi'i gwblhau – Mae'r ASB wedi gweithredu dull gwell i gofnodi apeliadau o dan y Cynllun a anfonir gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer nodi unrhyw apeliadau a allai fod wedi'u pennu ar ôl 21 diwrnod yn gyflym, fel y gall yr ASB gysylltu â'r awdurdod lleol er mwyn helpu i bennu a oes angen cymryd camau unioni.

A1.16. **Argymhelliad 2** – Bod yr ASB yn adolygu canlyniadau'r pedwerydd Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn gweithio gyda Grŵp Llywio Cymru i nodi'r angen am gefnogaeth neu ganllawiau ychwanegol yn ôl yr angen.

Wedi'i gwblhau – Rhannodd yr ASB ganlyniadau'r pedwerydd Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol gydag awdurdodau lleol ym mis Mehefin 2019. Cyflwynodd bron i dri chwarter yr awdurdodau lleol y canlyniad disgwylidig, ac o'r gweddill, cafodd y gwahaniaethau eu priodoli i'r sgorio ar gyfer Hyder Mewn Rheolwyr a ddeilliodd o gyfyngiadau unrhyw ymarfer ar sail senario. Cytunodd Grŵp Llywio Cymru na fyddai angen cefnogaeth ychwanegol ac ymrwymodd yr ASB i ystyried dileu unrhyw wahaniaeth rhwng dogfennau canllaw ym mhob gwlad fel rhan o'r adolygiad o'r Canllawiau Statudol yng Nghymru.

A1.17. **Argymhelliad 3** – Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth er mwyn sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

Wedi'i gwblhau – Cynhaliodd yr ASB ymarferion cysondeb ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2018 a 2020. Mae ymarferion cysondeb hefyd wedi'u trefnu a'u cynnal ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru yn 2018 ac yn 2019. Bydd yr ASB yn parhau i drefnu a chefnogi awdurdodau lleol wrth drefnu lefelau cysondeb ar draws y tair gwlad, yn ogystal ag ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

2020 – Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd: Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru

A1.18. **Argymhelliad 1** – Bod yr ASB yn cynnal adolygiad o'r defnydd o'r dewis Cais i Gyhoeddi Sgôr yn Gynnar ac yn asesu ei effaith ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

Parhaus – Mae'r swyddogaeth ar gael ar hyn o bryd ar gyfer busnesau bwyd yng Nghymru. Oherwydd effaith pandemig COVID-19, mae'r ASB wedi gohirio'r adolygiad o'r swyddogaeth hon am y tro.

A1.19. **Argymhelliad 2** – Bod yr ASB yn archwilio'r rhesymau dros y defnydd isel o'r mesur diogelu 'hawl i ymateb' yng Nghymru.

Parhaus – Oherwydd bod gwaith wedi'i ail-flaenoriaethu ac oherwydd cyfyngiadau adnoddau o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae'r ASB wedi gohirio'r ymarfer hwn a bydd yn parhau i adolygu ei phenderfyniad.

A1.20. **Argymhelliad 3** – Y bydd yr ASB, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, yn adolygu ac yn diwygio'r Canllawiau Statudol yn 2020 ar ran Gweinidogion Cymru yn ôl yr angen.

Parhaus – Mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, cwblhaodd yr ASB yr adolygiad o'r Canllawiau Statudol yn ystod 2020. Bydd y Canllawiau Statudol diwygiedig yn cael eu cyflwyno i Weinidog Cymru i'w cymeradwyo cyn eu cyhoeddi ddechrau 2021.

A1.21. **Argymhelliad 4** – Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth er mwyn sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

Wedi'i gwblhau – Mae'r ASB wedi cynnal ymarferion cysondeb ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2018 ac yn 2020. Mae ymarferion cysondeb hefyd wedi'u trefnu a'u cynnal ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru yn 2018 ac yn 2019. Bydd yr ASB yn parhau i drefnu a chefnogi awdurdodau lleol wrth drefnu lefelau cysondeb ar draws y tair gwlad, yn ogystal ag ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.